



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2019 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2019. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2019 yn rhai cywir.

(Tudalennau7 - 14)

3. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF – CYNIGION I WELLA'R DDARPARIAETH ADDYSG YN ARDAL EHANGACH PONTYPRIDD

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniadau cyhoeddi pedwar Hysbysiad Statudol yn ddiweddar mewn perthynas â'r cynigion i aildrefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd.

(Tudalennau 15 - 234)

4. TRAWSNEWID SYSTEM Y BLYNYDDOEDD CYNNAR YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd Cynllun Cyd-adeiladu'r Blynyddoedd Cynnar Cwm Taf, a cheisio cymeradwyaeth i weithredu'r newidiadau arfaethedig i'r model presennol er mwyn trawsnewid system y blynyddoedd cynnar yn Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 235 - 258)

5. Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/2020 hyd at 2022/23, yn seiliedig ar dybiaethau modelu, cyn llunio cynigion manwl ar gyfer strategaeth gyllideb 2020/21 yn ystod yr hydref.

(Tudalennau 259 - 304)

6. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y PEDWERYDD CHWARTER

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi trosolwg i'r Aelodau o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

(Tudalennau 305 - 326)

7. ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL DRAFFT

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi i'r Aelodau'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft sy'n dangos cynnydd y Cyngor yn erbyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a'i ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

(Tudalennau 327 - 400)

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n cyflwyno drafft cyntaf y fframwaith adrodd diwygiedig i'r Cabinet ei drafod cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gynnwys.

(Tudalennau 401 -
446)

9. CYNLLUN BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys Cynllun Blynyddol 2019/20 Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

(Tudalennau 447 -
472)

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018/19 mewn perthynas â Chynhalwyr i Lywodraeth Cymru.

(Tudalennau 473 -
524)

11. GWAITH DEUOLI'R A4119 HEOL CWM ELÁI – PARC BUSNES LLANTRISANT HYD AT GYLCHFANNAU COED-ELÁI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen, sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet ar gynnydd cyfredol datblygu a chyflawni'r cynllun trafndiaeth o bwys: Gwaith Deuoli'r A4119 Heol Cwm Elái – Parc Busnes Llantrisant hyd at Gylchfannau Coed-elái.

(Tudalennau 525 -
536)

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG (SACRE) RHCT.

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â dyletswyddau statudol y Cyngor i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).

(Tudalennau 537 -
576)

13. TRAFOD CADARNHAU'R CYNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

14. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL – Y DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd yn erbyn themâu allweddol y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018–23.

(Tudalennau 577 -
598)

15. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cyngorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins (Legal), Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a
Datblygu